

COFNODION CYFARFOD O GYNGOR CYMUNED LLANENGAN A GYNHALIWDYD AR ZOOM, nos Fercher, Rhagfyr 9fed, 2020 am 7.45 o'r gloch

PRESENNOL

O. Hefin Roberts (Cadeirydd); G. Ian Evans (Is-gadeirydd), Angharad Correia-Martins, Edward O. Griffith, Wyn Griffiths, Robert M. Jones, Erfyl W. Roberts, William B. Williams; Cyng. Dewi W. Roberts (Cyngor Gwynedd – Sylwebydd)

YMDDIHEURIADAU

Alun Jones, John Gwilym Jones, Owi Lloyd-Jones, Catherine Ll. Morris, Cyng. John B. Hughes (Cyngor Gwynedd - Sylwebydd)

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Dymunwyd gwellhad buan i'r Cyng. Owi Lloyd-Jones sy'n wynebu llawdriniaeth fory.

Yn anffodus, ni allai Cyng. Alun Jones uno â'r cyfarfod oherwydd nid oes ganddo gyfrifiadur a deil Cyng. Wyn Griffiths gael trafferthion cysylltu.

1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd:

- Cynghorydd Catherine Ll. Morris fuddiant yng nghais cynllunio C20/0929/39/YA – rhybudd ymlaen llaw o fwriad codi adeilad amaethyddol – Towyn, Llanengan, oherwydd bod yr ymgeisydd yn berthynas teuluol
- Cynghorwyr Erfyl W. Roberts a John Gwilym Jones fuddiant yng nghais cynllunio C20/0936/39/LL – Creu mynedfa newydd i'r fferm – Bodlondeb, Sarn Bach, oherwydd y gweithia'r cyntaf i'r ymgeisydd a deil dir i'r olaf
- Cynghorydd Owi Lloyd-Jones fuddiant yng nghais cynllunio C20/0989/39/CC – Cais i dorri coeden (cypreswydden 'Monterey') sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed – Tir ger Royal Garage, Lôn Bont Morgan, Aber-soch, oherwydd bod ei fusnes gerllaw.

2. CADARNHAU COFNODION

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Dachwedd 11eg, 2020 yn gywir.

3. EITEMAU BRYD (Cadeirydd/Clerc) – Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Ni dderbyniwyd dim.

4. CEISIADAU CYNLLUNIO

Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

C20/0927/39/DT	Ailosod/ad-drefnu ffenestri ac ailosod balwstradau balconi – Tŷ Uchaf, Bwlchtocyn – Cefnogir
C20/0929/39/YA	Rhybudd ymlaen llaw o fwriad codi adeilad amaethyddol – Towyn, Llanengan – Cefnogir [Datgan Diddordeb – CLIM]
C20/0936/39/LL	Creu mynedfa newydd i'r fferm – Bodlondeb, Sarn Bach – Cefnogir [Datgan Diddordeb – JGJ ac EWR]
C20/0944/39/RC	Cais i ddileu Cytundeb Adran 106 oddi wrth Ganiatâd Cynllunio C08D/0246/39/AM er mwyn diddymu'r angen i gadw'r tŷ yn fforddiadwy'n barhaol – 4 Cae Arfryn, Mynytho – Gwrthwynebir oherwydd gosodir amod am reswm. Ni fuasai'r tai wedi'u caniatáu hebdo ac mae angen rhai i bobl leol
C20/0954/39/LL	Newid defnydd rhan o gyn-feddygfa i ddefnydd mân-werthu A1 – Drs. Langley & Partners, Meddygfa Lôn Sarn Bach, Aber-soch – Cefnogir
C20/0955/39/DT	Ymestyn feranda ar gefn yr eiddo – 15 Tan y Gaer, Aber-soch – Cefnogir
C20/0972/39/DT	Dwy ffenestr gromen newydd yn yr edrychiad cefn – 26 Ystâd Cornwall, Mynytho – Cefnogir
C20/0989/39/CC	Cais i dorri coeden (cypreswydden 'Monterey') sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed – Tir ger Royal Garage, Lôn Bont Morgan, Aber-soch – Gwrthwynebir oherwydd gosodir amod am reswm ac mae'n rhan o dirlun hanesyddol ac etifeddol ardal Min-y-Don a'r Harbwr. Nodir yn yr adroddiad nad yw'r goeden yn iach a phe dyfernir o blaid y cais awgrymir y dylid gosod amod y plennir coeden aeddfed yn hytrach nag un ifanc yn ei lle [Datgan Diddordeb – OLI-J]
C20/0994/39/AC	Diwygio Amod 2 o Ganiatâd Cynllunio C20/0085/39/DT ynglŷn â dyluniad a lleoliad estyniad cefn – Bryn Ochor, 10 Maes Awel, Aber-soch – Cefnogir
C20/0995/39/LL	Newid defnydd uned mân-werthu llawr daear presennol o ddefnydd Dosbarth A1 i A3 caffi a pharlwr hufen iâ a fyddai'n creu un uned â chaffi a pharlwr hufen iâ presennol cyfochrog – Two Islands, Lôn Pen Cei, Aber-soch – Cefnogir
C20/0997/39/DT	Codi adeilad gardd pren newydd yn lle un presennol – Rushmere, Lôn Sarn Bach, Aber-soch – Cefnogir ar yr amod mai adeilad gardd yn unig fydd o, gan ei fod dwbl maint yr un presennol

5. MATERION YN CODI

- a) **12. Ysgol Aber-soch**
Ni dderbyniwyd ateb.
- b) **16. Gohebiaeth: ff) Cyngor Cymuned Llanllyfni – Yr Wyddfa**
Diolchodd Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd am y gefnogaeth i gynnal trafodaethau â Swyddogion y Parc Cenedlaethol.
- c) **16. Gohebiaeth: ng) O Ddrws i Ddrws – Cais am Gyfraniad at Gario Cleifion i Apwyntiadau Meddygol a Gwahoddiad i Ymuno â'r Bwrdd Rheoli**
Derbyniwyd ymateb oddi wrth Wyn Williams, Is-gadeirydd O Ddrws i Ddrws, yn nodi nad oedd yn sicr faint a ddefnyddiodd y gwasanaeth o'r gymuned hon ar wahân i un

unigolyn. Ychwanegodd y defnyddiodd Bore Paned y gwasanaeth tuag wyth gwaith cyn Coronafeirws.

- ch) **16. Gohebiaeth: h) Cyngor Cymuned Aberdaron – Meddygfa Rhydbach**
Ni dderbyniwyd ymateb. Deil anawsterau archebu apwyntiadau a soniwyd fel yr addawyd datblygu gwasanaethau yn Fferyllfa Aber-soch pan gaewyd y Feddygfa ddwy flynedd yn ôl ond, ni wireddwyd hynny.
- d) **14. Sedd Wag Ward Aber-soch**
Ni dderbyniodd y Swyddog Canlyniadau gais ysgrifenedig am etholiad erbyn y dyddiad cau ac, o ganlyniad, gall y Cyngor hysbysebu cyfethol aelod – dyddiad cau Rhagfyr 18fed.
- dd) **15. Cynnig Cyng. Erfyl W. Roberts**
Arhebodd Ysgol Botwnnog ddau gyfrifiadur erbyn hyn ond, oherwydd diffyg argaeledd, ni chyrrhaeddant tan fis Chwefror – cynyddodd y pris i £350.00. Anfonwyd llythyr at Gyngorau eraill y dalgylch.
- e) **16. Gohebiaeth: a) Cydlynnydd Partneriaethau Natur Lleol Gwynedd – Tir Mynytho**
Cyfarfu'r Cyng. Wyn Griffiths a'r Clerc ag Elis Smits a Joanna Porter, Swyddog RSPB/Plantlife, i drafod Llain y Pentref a derbyniwyd adroddiad oddi wrth yr olaf; penderfynwyd gofyn am sgwrs bellach.

6. MYNWENT Y BWLCH

- a) **Arwyddion Ysbwriel**
Gosodwyd arwyddion ar y giatiau yn dilyn deall y dechreuwyd gadael blodau marw ac ati yn lle safai'r biniau er mai cyfrifoldeb yr Henaduriaeth ydyw.
- b) **Trosglwyddo Mynwent y Capel**
Derbyniwyd llythyr oddi wrth yr Henaduriaeth. Ymddiheurwyd am yr oedi ac eglurwyd y gwneir trefniant priodol â Llysoedd y Cyfundeb i hwyluso'r trosglwyddo – mae'n ofynnol derbyn caniatâd cyn parhau. Yn yr un modd, parheir â'r drafodaeth parthed cyfrannu at ei chynnal a'i chadw am ddeng mlynedd.

7. CAEAU CHWARAE

- a) **Mainc Cae Chwarae Mynytho**
Gosodwyd a thalwyd amdani – gweler 17. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod.
- b) **Grant Chwarae ar gyfer Parciau Chwarae Llywodraeth Cymru**
Derbyniwyd gwybodaeth am yr uchod oddi wrth Swyddog Cefnogi Cymunedau Dwyfor. Sefydlwyd £100,000 o Grant Chwarae yng Ngwynedd am gyfnod byr – rhaid cwblhau unrhyw gynllun cyn Mawrth 31ain. Gellid ariannu trwsio neu adnewyddu offer, goleuo gofodau chwarae, e.e. parciau sglefrio, offer symudol i alluogi chwarae peripatetig. Oherwydd prinder amser, hysbyswyd Pennaeth Ysgol Foel Gron eisoes a gofyn iddi drafod â'r disgyblion. Derbyniwyd y rhestr awgrymiadau a ganlyn:
 - arwyddion ffordd ar gyfer y trac beicio a chael ei farcio rhywbeth tebyg i'r ffordd fawr

- offer ymarfer corff (amheuir os caiff plant dan 14 oed eu defnyddio – ni chânt yn Aber-soch; anwybyddir yr arwyddion yno)
- ffrâm ddringo (rhywbeth tebyg i'r roced sydd yng Nghae Chwarae Aber-soch)
- goliau.

Penderfynwyd cysylltu â Chyngor Nefyn i holi pwy farciodd trac beicio ei Gae Chwarae, gan y buasai hynny'n rhywbeth gwerth chweil. Hefyd, gellid gosod y goliau'n iawn, gan na wnaethpwyd hynny ar ôl tynnu un i osod y trac beicio.

8. MATERION CYLLIDOL

a) **Cyflenwad Trydan Toiledau Lôn Traeth**

Derbyniwyd llythyr prosesu terfynu'r cytundeb presennol ar Fai 15fed, 2021 oddi wrth E-on.

b) **Meinciau Solar**

Ni dderbyniwyd gwybodaeth bellach na rhestr brisiau ddiweddarach er cysylltu â'r cwmni eto. Cafwyd sgwrs â Swyddog Cadwyn Clwyd a soniodd pa mor boblogaidd yw'r un a osodwyd yn Llanfair Talhaearn o ran defnydd ymysg pobl ifanc y fro.

c) **Cyllideb 2021 – 2022**

Trafodwyd yr uchod, gan ddefnyddio'r llif arian, ynghyd â ffurflen incwm a gwariant y flwyddyn ariannol ddiwethaf a phenderfynwyd cadarnhau'r gyllideb fel a ganlyn:

Gwariant

Cyflogau	+£1000.00
Biniau Baw Cŵn	+£ 500.00
Gwefan	+£ 500.00
Torri Llwybrau	+£2000.00
Hyfforddiant	+£ 250.00

ch) **Praesept 2021 – 2022**

Penderfynwyd cadw'r praesept yn £55,000 am y flwyddyn ariannol nesaf.

d) **Archwiliad Ariannol 2019 – 2020**

Derbyniwyd galwad ffôn oddi wrth BDO yn gynharach heddiw'n hysbysu fod yr archwiliad yn lân ac yr anfonir y ffurflen i'w chadarnhau cyn gynted â phosibl – bydd rhaid cynnal cyfarfod arbennig i'w chymeradwyo. Ymddiheurwyd am yr oedi.

dd) **Swm Priodol Adran 137(4)(a) Deddf Llywodraeth Leol 1972**

£8.41 yw'r swm ar gyfer 2021 – 2022 at ddibenion yr Adran uchod.

e) **Aelodaeth Cymdeithas y Clercod (SLCC) 2021**

Penderfynwyd talu'r tâl aelodaeth, sef £144.00 – gweler 17. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod.

f) **Canolfan Llanengan**

Penderfynwyd talu £110.00, sef tâl llogi arferol y Cyngor am gynnal ei gyfarfodydd er mai ond tri cyfarfod a gynhaliwyd yn y Ganolfan eleni.

- ff) **Coed Nadolig**
Fe'u gosodwyd erbyn hyn – gweler 17. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod.

9. **MATERION CYNLLUNIO**

- a) **Dilyn a Darganfod**
Datryswyd y trafferthion erbyn hyn.
- b) **Apêl Cwt Glan Môr Rhif 3 Borth Fawr**
Anfonwyd sylwadau'r Cyngor hwn eisoes.

10. **MATERION PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

- a) **Arwyddion Haearn Bwrw**
Ni cheisiwyd prisiau na phaentiwr hyd yma.
- b) **Cau Ffyrrd**
Derbyniwyd copi o Rybuddion yn hysbysu'r uchod ar gyfer:
- Ffordd Dosbarth III Botwnnog ar Dachwedd 13eg
 - Ffordd Dosbarth III a adwaenir fel Lôn China, Mynytho ar Dachwedd 26ain.
- c) **ElanCity – Arwyddion Cyflymder**
Copi o gatalog yr uchod er gwybodaeth.
- ch) **Palmant ym Mynytho**
Derbyniwyd ateb i ymholiad a ellid adeiladu palmant rhwng Fron Heulog a Llwydiarth yn dilyn gwerthu'r eiddo cyntaf yn ddiweddar; nid oes bwriad gwneud ac mae'n anodd ystyried cynllun o'r fath yn y dyfodol agos.

11. **MATERION HAWLIAU TRAMWY**

- a) **Ail-gategoreiddio'r Llwybrau**
Rhaid ceisio trefnu cyfarfod i drafod yr uchod er mwyn hysbysebu tendr torri'r llwybrau yn 2021.

12. **TRAETHAU**

- a) **Marchroes**
Hysbysiad y derbyniodd Uned AHNE Llŷn a'r Uned Forwrol nawdd gan Lywodraeth Cymru i wella ychydig ym Marchroes. Dechreuir ar y gwaith o atgyweirio'r lôn ger y fynedfa i'r traeth a chreu grisiau newydd i'r safle picnic ger y maes parcio yn fuan yn 2021.
- b) **Parcio ym Mhorth Neigwl**
Ymatebodd Barry Davies, Swyddog Morwrol, yr ystyria'r Cyngor gymryd camau yn erbyn cerbydau sy'n aros dros nos ar feysydd parcio a mannau eraill. Hefyd, gosodwyd arwyddion ym maes parcio Porth Neigwl. Ystyrir gosod rhwystrau cyfyngu uchder ar y fynedfa hefyd ond, rhaid sicrhau nad amharant ar yr AHNE. Atododd gopi o lythyr a anfonodd Dafydd Wyn Williams, Pennaeth yr Adran Amgylchedd, at unigolyn lleol mewn ymateb i'r un pryder.

13. **CIOSG BT STRYD FAWR, ABER-SOCH**

Cysylltwyd â Thomas Hughes, Swyddog PADS, Gwasanaeth Ambiwlans Gogledd Cymru, ar ôl derbyn e-bost oddi wrtho. Eglurodd y sefyllfa o ran gosod diffribilwyr ac, er y dylid ceisio tri amcanbris, penderfynwyd derbyn ei bris gan mai'r rhain a ddefnyddia'r Ymatebwyr Cyntaf yn lleol, ynghyd â'r Gwasanaeth Ambiwlans. Gellir talu am y cwbl i Awyr Las – cyfrifir y taliad TAW fel cyfraniad at yr elusen; tua £1400.00 fydd y cyfanswm. Ni dderbyniwyd yr union gost cyn cyfarfod heno.

14. **ARWYDDBYST PREN**

Ni dderbyniwyd ymateb oddi wrth Sioned Mair Williams, yr arlunydd/cynllunydd.

15. **GOHEBIAETH**

- a) **Un Llais Cymru**
Derbyniwyd amrywiol ohebiaeth yn ystod y pum mis diwethaf – fe'u didolir a gweithredu arnynt fesul dipyn.
- b) **Ail-lenwi Cymru**
Gwahoddiad i fod yn rhan o gynllun Llywodraeth Cymru i wneud Cymru'r 'Genedl Ail-lenwi' dŵr gyntaf. Penderfynwyd gofyn am fwy o fanylion a holi beth yw'r sefyllfa o ran defnyddio ffowntenni dŵr o ganlyniad i'r Coronafeirws.
- c) **Roy Milnes, Aberdaron – 'Dark Skies'**
Gwahoddiad oddi wrth yr uchod i gefnogi cais Cyngor Gwynedd geisio Tystysgrif Awyr Dywyll Gogledd Cymru; penderfynu gwrthod wnaeth Cyngor Cymuned Aberdaron. Penderfynwyd holi'r Adran AHNE beth yw'r sefyllfa, gan y gallai Pen Cilan gael ei ystyried yn un fel Mynydd Mawr ac Anelog yn Aberdaron. Mae'n rhywbeth a ystyrir yn atyniad twristaidd newydd erbyn hyn – fe'i trafodwyd ar y newyddion heddiw.
- ch) **Anna E. Jones – Grisïau ar Lôn Bont Morgan**
Gofynna am gymorth y Cyngor wrth fynegi pryder am y diffyg canllaw ar yr uchod. Un pren oedd yno a chredir y diflannodd wrth i gychod glymu eu rhaffau ynddi fel angor; penderfynwyd holi ac ymchwilio pwy yw perchennog y tir.
- d) **Comisiynydd Heddlu a Throsedd – Dweud eich Dweud**
Gwahoddiad i gyflwyno barn am blismona, ei flaenoriaethau a phraesept 2021 – 2022 ar arolwg ar-lein.

16. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO**

C20/0195/39/LL	Dymchwel annedd presennol a chodi un newydd – Terfyn, Aber-soch – Caniatawyd ag amodau
C20/0676/39/LL	Dymchwel caban presennol a chodi estyniad unllawr ochr newydd i'r brif annedd yn ei le – Bryn Onnen, Lôn Engan, Aber-soch – Caniatawyd ag amodau
C20/0728/39/DT	Adeiladu porth blaen, modurdy ochr, cynyddu maint y to i ddarparu lloffttydd llawr cyntaf â ffenestri gromen to brig ac ymestyn yr ardal

	batio bresennol - Windover, 5 Stad Llwyn Onn, Aber-soch – Caniatawyd ag amodau
C20/0735/39/DT	Codi estyniad ochr/cefn a phorth newydd – Tyddyn Twlc, Cilan – Caniatawyd ag amodau
C20/0765/39/DT	Creu teras haul ar yr ail lawr gyda sgrin balconi wydr – 266 Cae Du, Aber-soch – Gwrthodwyd
C20/0775/39/CC	Gwaith tocio ar ddwy goeden – Cyn-westy White House, Lôn Pont Morgan, Aber-soch – Caniatawyd ag amodau
C20/0778/39/LL	Dymchwel storfa a gweithdy tractor pren presennol ac adeiladu rhai newydd o ffrâm dderw – Porth Tocyn House, Bwlchtocyn – Caniatawyd ag amodau
C20/0812/39/DT	Dymchwel ystafell wydr upvc bresennol, teras dyrchafedig a modurdy. Adeiladu ystafell haul newydd, teras allanol dyrchafedig a modurdy â sawna i gynnwys gosod pwmp gwres ffynhonnell aer, popty pizza a thwb poeth, ynghyd â gwaith tirlunio cysylltiedig – Calamayor, 7 Lôn Hawen, Aber-soch – Caniatawyd ag amodau

17. CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU

Taliadau

Cadarnhawyd talu cyflog mis Rhagfyr (Rh/S 002316) y Clerc, ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

- a) Delwedd Ltd. – £431.28 (Rh/S 002320 – Cynnal Gwefan y Cyngor)
- b) E-on – £19.59 (D/U – Cyflenwad Trydan y Toiledau)
- c) J.A. Pozzi – £2976.00 (Rh/S 002321 – Torri Gwellt Cae Chwarae a Choed yr Allt, Abersoch, a Llwybrau Cyhoeddus Mynytho)
- ch) Glasdon Ltd. – £731.96 (Rh/S 002322 – Mainc Cae Chwarae Mynytho)
- d) Canolfan Ffensio a Melin Goed Glasfryn – £526.80 (Rh/S 002323 – Coed Nadolig)
- dd) Cyngor Gwynedd – £10000.00 (Rh/S 002324 – Cyfraniad at Doiledau'r Gymuned)
- e) Canolfan Gymdeithasol Llanengan – £30.00 (Rh/S 002325 – Llogi Ystafell)
- f) Cymdeithas y Clercod (SLCC) – £144.00 (Rh/S 002326 – Tâl Aelodaeth 2021)

Derbyniadau

Ni dderbyniwyd dim.

18. DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF

Nos Fercher, Ionawr 13eg, 2021 am 7.45 o'r gloch ar **Zoom**